

Dyfarniad Lefel 3 Focus Awards mewn

# Addysg a Hyfforddiant (RQT)

601/6099/8

FOCUS AWARDS

# Gwybodaeth Allweddol

Lefel: 3

Sector: Addysgu a Darlithio

Math o Gymhwyster: Cymhwyster Galwedigaethol

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 120

Gwerth y Credydau: 12

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 48

Statws: Ar gael i Ddysgwyr

Dulliau Asesu: Portffolio Tystiolaeth

Isafswm oedran: 19



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Cynnwys


Gwybodaeth Allweddol .......... 2

Diben y Cymhwyster .......... 4

Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig .......... 4

Dulliau Asesu .......... 5

Llwybrau Cynnydd .......... 5

Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol .......... 5

Strwythur y Cymhwyster .......... 6

Unedau .......... 7

# Dyfarniad Lefel 3 Focus Awards mewn Addysg a Hyfforddiant (RQF)

Rhif Cyfeirnod y Cymhwyster: 601/6099/8

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 48

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 120

Credydau: 12

## Diben y Cymhwyster:

Nod Dyfarniad Lefel 3 Focus Awards mewn Addysg a Hyfforddiant (RQF) yw rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd ym maes addysg a hyfforddiant. Mae'n rhoi dealltwriaeth o addysgu a dysgu cynhwysol a'r broses weithredu, hwyluso dysgu unigol ac mewn grŵp a gwybodaeth am asesu a'r broses o'i weithredu ym maes addysg a hyfforddiant.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at y dysgwyr hynny nad ydynt yn addysgu ar hyn o bryd, dysgwyr sy'n addysgu ac yn hyfforddi ar hyn o bryd a'r dysgwyr hynny sy'n gweithio fel aseswyr sy'n dymuno ennill cymhwyster sy'n rhoi cyflwyniad i addysgu.

## Ystod Oedran:

Ceir mynediad yn ôl disgresiwn y ganolfan. Fodd bynnag, dylai dysgwyr fod yn 19+ oed i ymgymryd â'r cymhwyster hwn.

## Cwmpas Daearyddol:

Mae'r cymhwyster hwn ar gael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Gofynion Mynediad i Ddysgwyr:

Nid yw Focus Awards yn gosod unrhyw ofynion mynediad eraill, ond gall y ganolfan bennu neu ofyn am feini prawf ychwanegol.

## Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig:

Cyfeiriwch at 'Polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig' Focus Awards. Mae copi ar gael i'w lawrlwytho o wefan Focus Awards yn yr url canlynol: [https://www.focusawards.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/Reasonable-Adjustments.pdf](https://www.focusawards.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/Reasonable-Adjustments.pdf)



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

## Dulliau Asesu:

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu'n fewnol. Rhaid i bob dysgwr greu portffolio tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi cyflawni'r holl ddeilliannau dysgu a'r meini prawf asesu sy'n gysylltiedig â phob uned.

Gallai'r prif ddarnau o dystiolaeth ar gyfer y portffolio gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Arsylwadau'r asesydd
- Tystiolaeth tystion
- Cynnyrch dysgwr
- Taflenni gwaith
- Aseiniadau/prosiectau/adroddiadau
- Cofnod o gwestiynu llafar ac ysgrifenedig
- Adroddiadau dysgwyr a chymheiriaid
- Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL)

## Llwybrau Cynnydd:

Gall dysgwyr sydd am symud ymlaen o'r cymhwyster hwn ddatblygu eu sgiliau ymhellach drwy'r canlynol:

- Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards mewn Addysg a Hyfforddiant
- Diploma Lefel 5 Focus Awards mewn Addysg a Hyfforddiant

## Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol:

- https://focusawards.org.uk/supportingmaterials

- https://ofqual.gov.uk

# Strwythur y Cymhwyster:

Er mwyn ennill y cymhwyster hwn, rhaid i ddysgwr ennill o leiaf deuddeg o gredydau. Tri chredyd o Grŵp A, chwe chredyd o Grŵp B a thri chredyd o Grŵp C.

## Unedau Grŵp A:

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Deall rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant | H/505/0053 | 3 | 3 | 12 |

## Unedau Grŵp B:

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Deall dulliau addysgu a dysgu cynhwysol mewn addysg a hyfforddiant a'u defnyddio | D/505/0052 | 3 | 6 | 24 |
| Hwyluso dysgu a datblygu i unigolion | J/502/9549 | 3 | 6 | 25 |
| Hwyluso dysgu a datblygu ar gyfer grwpiau | F/502/9548 | 3 | 6 | 25 |

## Unedau Grŵp C:

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Deall asesu ym maes addysg a hyfforddiant | R/505/0050 | 3 | 3 | 12 |
| Deall egwyddorion ac arferion asesu | D/601/5313 | 3 | 3 | 24 |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Unedau

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Deall rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant |
| Rhif yr Uned: | H/505/0053 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 12 |
| Credydau: | 3 |

Manylion yr Uned: Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwr o rôl a chyfrifoldebau addysgu ym maes addysg a hyfforddiant, cynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol a deall y berthynas rhwng athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg a hyfforddiant.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall rôl a chyfrifoldebau addysgu ym maes addysg a hyfforddiant | 1.1 | Esbonio'r rôl a'r cyfrifoldebau addysgu ym maes addysg a hyfforddiant |
| | | 1.2 | Crynhoi agweddau allweddol ar ddeddfwriaeth, gofynion rheoleiddio a chodau ymarfer sy'n ymwneud â'i rôl a'i gyfrifoldebau ei hun |
| | | 1.3 | Esbonio ffyrdd o hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth |
| | | 1.4 | Esbonio pam mae'n bwysig nodi a diwallu anghenion dysgwyr unigol |
| 2 | Deall ffyrdd o gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol | 2.1 | Esbonio ffyrdd o gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol |
| | | 2.2 | Esbonio pam mae'n bwysig hyrwyddo ymddygiad priodol a pharch tuag at eraill |
| 3 | Deall y berthynas rhwng athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg a hyfforddiant | 3.1 | Esbonio sut mae'r rôl addysgu'n cynnwys gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill |
| | | 3.2 | Esbonio'r ffiniau rhwng y rôl addysgu a rolau proffesiynol eraill |
| | | 3.3 | Disgrifio pwyntiau atgyfeirio i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Deall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu cynhwysol ym maes addysg a hyfforddiant |
| Rhif yr Uned: | D/505/0052 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 24 |
| Credydau: | 6 |

Manylion yr Uned: Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddulliau addysgu a dysgu cynhwysol ym maes addysg a hyfforddiant, ffyrdd o greu amgylchedd addysgu a dysgu cynhwysol a gallu cynllunio, cyflwyno a gwerthuso addysgu a dysgu cynhwysol.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall dulliau addysgu a dysgu cynhwysol ym maes addysg a hyfforddiant | 1.1 | Disgrifio nodweddion addysgu a dysgu cynhwysol |
| | | 1.2 | Cymharu cryfderau a chyfyngiadau dulliau addysgu a dysgu a ddefnyddir ym ei faes arbenigedd ei hun o ran diwallu anghenion dysgwyr unigol |
| | | 1.3 | Esbonio pam mae'n bwysig rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau Saesneg, mathemateg, TGCh a'u sgiliau ehangach |
| 2 | Deall ffyrdd o greu amgylchedd addysgu a dysgu cynhwysol | 2.1 | Esbonio pam mae'n bwysig creu amgylchedd addysgu a dysgu cynhwysol |
| | | 2.2 | Esbonio pam mae'n bwysig dewis dulliau addysgu a dysgu, adnoddau a dulliau asesu i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol |
| | | 2.3 | Esbonio ffyrdd o ennyn diddordeb ac ysgogi dysgwyr |
| | | 2.4 | Crynhoi ffyrdd o sefydlu rheolau sylfaenol gyda dysgwyr |
| 3 | Gallu cynllunio addysgu a dysgu cynhwysol | 3.1 | Dyfeisio cynllun addysgu a dysgu cynhwysol |
| | | 3.2 | Nodi ei ddewis ei hun o ddulliau addysgu a dysgu, adnoddau a dulliau asesu o ran diwallu anghenion dysgwyr unigol |
| 4 | Gallu darparu addysgu a dysgu cynhwysol | 4.1 | Defnyddio dulliau addysgu a dysgu, adnoddau a dulliau asesu i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol |
| | | 4.2 | Cyfathrebu â dysgwyr mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion unigol |
| | | 4.3 | Rhoi adborth adeiladol i ddysgwyr i ddiwallu eu hanghenion fel dysgwyr unigol |
| 5 | Gallu gwerthuso darpariaeth addysgu a dysgu cynhwysol | 5.1 | Adolygu effeithiolrwydd ei ffordd ei hun o ddarparu addysgu a dysgu cynhwysol |
| | | 5.2 | Nodi meysydd i'w gwella o ran ei ffordd ei hun o ddarparu addysgu a dysgu cynhwysol |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Hwyluso dysgu a datblygu i unigolion | | |
| Rhif yr Uned: | J/502/9549 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 25 | | |
| Credydau: | 6 | | |
| Manylion yr Uned: Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwr o egwyddorion dysgu a datblygu un i un, gan hwyluso dysgu a datblygu un i un a gallu cynorthwyo unigolion i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd mewn cyd-destunau ymarferol. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu un i un | 1.1 | Esbonio dibenion dysgu a datblygu un i un |
| | | 1.2 | Esbonio ffactorau i'w hystyried wrth hwyluso dysgu a datblygu i ddiwallu anghenion unigol |
| | | 1.3 | Gwerthuso dulliau ar gyfer hwyluso dysgu a datblygu i ddiwallu anghenion unigolion |
| | | 1.4 | Esbonio sut i reoli risgiau a diogelu unigolion wrth hwyluso dysgu a datblygu un i un |
| | | 1.5 | Esbonio sut i oresgyn rhwystrau unigol i ddysgu |
| | | 1.6 | Esbonio sut i fonitro cynnydd dysgwyr unigol |
| | | 1.7 | Esbonio sut i fonitro cynnydd dysgwyr unigol |
| 2 | Gallu hwyluso dysgu a datblygu un i un | 2.1 | Egluro dulliau hwyluso gydag unigolion i gyflawni eu hamcanion dysgu a/neu ddatblygu |
| | | 2.2 | Gweithredu gweithgareddau i gyflawni amcanion dysgu a/neu ddatblygu |
| | | 2.3 | Rheoli risgiau a diogelu dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn sesiynau dysgu a datblygu un i un |
| 3 | Gallu cynorthwyo dysgwyr unigol i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd mewn cyd-destunau ymarferol | 3.1 | Datblygu cyfleoedd i unigolion allu cymhwyso eu gwybodaeth a'u dysgu newydd mewn cyd-destunau ymarferol |
| | | 3.2 | Esbonio manteision cymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd i unigolion |
| 4 | Gallu helpu dysgwyr unigol | 4.1 | Esbonio manteision hunanwerthuso i unigolion |
| | | 4.2 | Adolygu ymatebion unigol i ddysgu a/neu ddatblygu un i un |
| | | 4.3 | Helpu dysgwyr unigol i nodi eu hanghenion dysgu a/neu ddatblygu yn y dyfodol |

| Teitl yr Uned: | Hwyluso dysgu a datblygu ar gyfer grwpiau | | |
|---|---|---|---|
| Rhif yr Uned: | F/502/9548 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 25 | | |
| Credydau: | 6 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth ac arferion y dysgwr o ddysgu a datblygu mewn grwpiau, gallu hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau, cynorthwyo grwpiau i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd mewn cyd-destunau ymarferol a chynorthwyo dysgwyr i fyfyrio ar eu dysgu a'u datblygu. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall egwyddorion ac arferion dysgu a datblygu mewn grwpiau | 1.1 | Esbonio dibenion dysgu a datblygu mewn grŵp |
| | | 1.2 | Esbonio pam mae'n rhaid i ddulliau darparu dysgu a datblygu adlewyrchu dynameg y grŵp |
| | | 1.3 | Gwerthuso dulliau o hwyluso dysgu a datblygu i ddiwallu anghenion grwpiau |
| | | 1.4 | Esbonio sut i reoli risgiau a diogelu unigolion wrth hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau |
| | | 1.5 | Esbonio sut i oresgyn rhwystrau i ddysgu mewn grwpiau |
| | | 1.6 | Esbonio sut i fonitro cynnydd dysgwyr unigol o fewn gweithgareddau dysgu a datblygu grwpiau |
| | | 1.7 | Esboniwch sut i addasu'r ddarpariaeth yn seiliedig ar adborth gan ddysgwyr mewn grwpiau |
| 2 | Gallu hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau | 2.1 | Egluro dulliau hwyluso gydag aelodau'r grŵp i gyflawni amcanion dysgu'r grŵp ac unigolion |
| | | 2.2 | Rhoi gweithgareddau dysgu a datblygu ar waith i gyflawni amcanion dysgu |
| | | 2.3 | Rheoli risgiau i ddysgu a datblygu grwpiau ac unigolion |
| 3 | Gallu cynorthwyo grwpiau i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd mewn cyd-destunau ymarferol | 3.1 | Datblygu cyfleoedd i unigolion gymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd mewn cyd-destunau ymarferol |
| | | 3.2 | Rhoi adborth fel bod y dysgu'n cael ei gymhwyso'n well |
| 4 | Gallu helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu dysgu a'u datblygiad mewn grwpiau | 4.1 | Cefnogi hunanwerthuso gan ddysgwyr |
| | | 4.2 | Adolygu ymatebion unigol i ddysgu a datblygu mewn grwpiau |
| | | 4.3 | Helpu dysgwyr i nodi eu hanghenion dysgu a datblygu yn y dyfodol |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| Teitl yr Uned | Deall asesu ym maes addysg a hyfforddiant | | |
| --- | --- | --- | --- |
| Rhif yr Uned: | R/505/0050 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad | 12 | | |
| Credydau: | 3 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwr o'r gwahanol fathau o asesu a dulliau asesu sy'n cael eu defnyddio ym maes addysg a hyfforddiant, sut i gynnwys dysgwyr ac eraill yn y broses asesu, rôl a defnydd adborth adeiladol yn y broses asesu a'r gofynion o ran cadw cofnod o asesu ym maes addysg a hyfforddiant. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall y mathau o asesu a dulliau asesu sy'n cael eu defnyddio ym maes addysg a hyfforddiant | 1.1 | Esbonio dibenion y mathau o asesu sy'n cael eu defnyddio ym maes addysg a hyfforddiant. |
| | | 1.2 | Disgrifio nodweddion gwahanol ddulliau asesu ym maes addysg a hyfforddiant |
| | | 1.3 | Cymharu cryfderau a chyfyngiadau gwahanol ddulliau asesu o ran diwallu anghenion dysgwyr unigol |
| | | 1.4 | Esbonio sut mae modd defnyddio dulliau asesu gwahanol i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol |
| 2 | Deall sut i gynnwys dysgwyr ac eraill yn y broses asesu | 2.1 | Esbonio pam mae'n bwysig cynnwys dysgwyr ac eraill yn y broses asesu |
| | | 2.2 | Esbonio rôl asesu gan gymheiriaid a hunanasesu yn y broses asesu a'u defnydd |
| | | 2.3 | Nodi ffynonellau gwybodaeth y dylai fod ar gael i ddysgwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r broses asesu |
| 3 | Deall rôl a defnydd adborth adeiladol yn y broses asesu | 3.1 | Disgrifio nodweddion allweddol adborth adeiladol |
| | | 3.2 | Esbonio sut mae adborth adeiladol yn cyfrannu at y broses asesu |
| | | 3.3 | Esbonio ffyrdd o roi adborth adeiladol i ddysgwyr |
| 4 | Deall gofynion ar gyfer cadw cofnodion asesu ym maes addysg a hyfforddiant | 4.1 | Esbonio'r angen i gadw cofnodion asesu dysgu |
| | | 4.2 | Crynhoi'r gofynion ar gyfer cadw cofnodion asesu mewn sefydliad |

FOCUS AWARDS

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Deall egwyddorion asesu | | |
| Rhif yr Uned: | D/601/5313 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 24 | | |
| Credydau: | 3 | | |
| Manylion yr uned: Mae'r uned hon yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o asesu gan gynnwys egwyddorion asesu, mathau o ddulliau asesu, cynllunio asesu, cynnwys dysgwyr, sut i wneud penderfyniadau asesu, sicrhau ansawdd, rheoli gwybodaeth a deall arferion cyfreithiol ac arfer da wrth asesu. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall egwyddorion a gofynion asesu | 1.1 | Esbonio swyddogaeth asesu ym maes dysgu a datblygu |
| | | 1.2 | Diffinio cysyniadau ac egwyddorion allweddol asesu |
| | | 1.3 | Esbonio cyfrifoldebau'r asesydd |
| | | 1.4 | Nodi'r rheoliadau a'r gofynion sy'n berthnasol i asesu yn ei faes ymarfer ei hun |
| 2 | Deall gwahanol fathau o ddulliau asesu | 2.1 | Cymharu cryfderau a chyfyngiadau amrywiaeth o ddulliau asesu gan gyfeirio at anghenion dysgwyr unigol |
| 3 | Deall sut i gynllunio asesu | 3.1 | Crynhoi ffactorau allweddol i'w hystyried wrth gynllunio asesu |
| | | 3.2 | Gwerthuso manteision defnyddio dull cyfannol o asesu |
| | | 3.3 | Esbonio manteision defnyddio dull cyfannol o asesu |
| | | 3.4 | Crynhoi'r mathau o risgiau a all fod yn gysylltiedig ag asesu yn ei faes cyfrifoldeb ei hun |
| | | 3.5 | Esbonio sut i leihau risgiau drwy'r broses gynllunio |
| 4 | Deall sut i gynnwys dysgwyr ac eraill yn y broses asesu | 4.1 | Esbonio pwysigrwydd cynnwys y dysgwr ac eraill yn y broses asesu |
| | | 4.2 | Crynhoi mathau o wybodaeth a ddylai fod ar gael i ddysgwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r broses asesu |
| | | 4.3 | Esbonio sut mae modd defnyddio hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid yn effeithiol i hyrwyddo cyfranogiad dysgwyr a chyfrifoldeb personol wrth asesu dysgu |
| | | 4.4 | Esbonio sut mae modd addasu trefniadau asesu i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol |
| 5 | Deall sut i wneud penderfyniadau asesu | 5.1 | Esbonio sut i farnu a yw'r dystiolaeth:<br>• Yn ddigonol<br>• Yn ddilys<br>• Yn gyfredol |
| | | 5.2 | Esbonio sut i sicrhau bod penderfyniadau asesu:<br>• Wedi'u gwneud yn erbyn meini prawf penodol |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Yn ddilys<br>• Yn ddibynadwy<br>• Yn deg |
| 6 | Deall sicrwydd ansawdd y broses asesu | 6.1 | Gwerthuso pwysigrwydd sicrwydd ansawdd yn y broses asesu |
| | | 6.2 | Crynhoi gweithdrefnau sicrhau ansawdd a safoni yn ei faes ymarfer ei hun |
| | | 6.3 | Crynhoi'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd anghydfodau ynghylch asesu yn ei faes ymarfer ei hun |
| 7 | Deall sut i reoli gwybodaeth sy'n ymwneud ag asesu | 7.1 | Esbonio pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau ar gyfer rheoli gwybodaeth sy'n ymwneud ag asesu |
| | | 7.2 | Esbonio sut mae adborth a chwestiynu yn cyfrannu at y broses asesu |
| 8 | Deall y gofynion cyfreithiol ac arfer da o ran asesu | 8.1 | Esbonio materion cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i asesu, gan gynnwys y rhai ar gyfer cyfrinachedd, iechyd, diogelwch a lles |
| | | 8.2 | Esbonio'r cyfraniad y gall technoleg ei gwneud i'r broses asesu |
| | | 8.3 | Gwerthuso gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth a, lle y bo'n briodol, dwyieithrwydd o ran asesu |
| | | 8.4 | Esbonio gwerth ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus yn y broses asesu |

## Gofynion o ran Staff

## Gofynion ar gyfer Tiwtoriaid/Hyfforddwyr

Bydd gofyn i diwtoriaid sy'n cyflwyno'r cymhwyster feddu ar gymhwyster addysgu neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel Lefelau 3, 4 neu 5 mewn Addysg a Hyfforddiant, neu Dystysgrif mewn Addysg. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau addysgu eraill wrth wneud cais. Rhaid i diwtoriaid hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

## Gofynion ar gyfer Aseswyr

Bydd gofyn i aseswyr feddu ar gymhwyster asesu perthnasol, neu fod yn gweithio tuag ato. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau fel:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol

Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau asesu perthnasol eraill wrth wneud cais.
Bydd yn ofynnol i aseswyr sydd ond yn meddu ar Ddyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion a Phrosesau Asesu gwblhau rhaglen astudio ychwanegol i gyflawni'r unedau cymhwysedd perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer un o'r cymwysterau a restrir uchod.
Bydd yn ofynnol i benderfyniadau aseswyr dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster asesu gael eu cydlofnodi gan asesydd â chymwysterau addas.
Rhaid i aseswyr hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

## Gofynion ar gyfer Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

Dylai Sicrhawyr Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol, neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel V1 (D34 gynt), neu Ddyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau perthnasol eraill Sicrhau Ansawdd Mewnol wrth gyflwyno cais. Bydd yn ofynnol i benderfyniadau Sicrhawyr Ansawdd Mewnol dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol gael eu cydlofnodi gan Sicrhawr Ansawdd Mewnol â chymwysterau addas. Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol allu dangos cymhwysedd galwedigaethol.


Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Geirfa ddefnyddiol o'r termau a ddefnyddir yn y fanyleb hon

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys Manyleb Cymwysterau Focus Awards yn cael eu defnyddio. Nid yw pob term o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio yn y cymhwyster hwn.

| | |
|---|---|
| Adolygu a diwygio | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau i wella eglurder neu arddangos dealltwriaeth yn well. |
| Allosod | Defnyddio gwybodaeth a data sy'n bodoli eisoes i ragfynegi deilliannau neu ganlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r 'norm' disgwyliedig. |
| Amcangyfrif | Defnyddio gwybodaeth, profiad a gwybodaeth berthnasol arall sy'n bodoli eisoes i nodi barn fras neu 'amcan gorau'. |
| Arddangos | Disgrifio neu esbonio gwybodaeth neu ddealltwriaeth drwy ddarparu enghreifftiau neu ddarluniau. |
| Barnu | Llunio barn neu wneud penderfyniad. |
| Coladu | Casglu a threfnu gwybodaeth mewn trefn resymegol (e.e. yn nhrefn yr wyddor, yn rhifiadol, yn gronolegol ayyb.). |
| Crynhoi | Cyfleu'r prif syniadau neu ffeithiau yn gryno. |
| Cyfiawnhau | Rhoi esboniad boddhaol ar gyfer gweithredoedd neu benderfyniadau. |
| Cyflawni | Ymgymryd â thasg neu broses i fodloni gofynion y cwestiwn. |
| Cymharu | Archwilio'r pynciau yn fanwl i nodi gwahaniaethau a thebygrwydd. |
| Cymharu'n feirniadol | Yn debyg i 'gymharu' uchod, ond gan ystyried unrhyw agweddau cadarnhaol a/neu gyfyngiadau sy'n codi o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd a nodwyd. |
| Cymhwyso | Esbonio sut y gellir defnyddio gwybodaeth bresennol mewn sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| Cynllunio | Llunio a chofnodi (rhestru) dilyniant rhesymegol, trefnus o wybodaeth, adnoddau a chamau/digwyddiadau gofynnol sy'n galluogi cysyniad neu syniad i gael ei grisialu a'i gyfathrebu. |
| Dadansoddi | Torri'r pwnc yn rhannau unigol. Archwilio pob un, dangos sut maen nhw'n cyd-fynd â'i gilydd, p'un a ydyn nhw'n cefnogi ei gilydd a pham maen nhw'n bwysig. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol ychwanegu at eich dadansoddiad. |
| Dangos | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |
| Darparu | Nodi a chyflwyno gwybodaeth fanwl a chywir sy'n gysylltiedig â'r pwnc. |

| | |
|---|---|
| Datblygu... | Ehangu cynllun neu syniad drwy ychwanegu mwy o fanylion a/neu ddyfnder gwybodaeth. |
| Datgan | Rhoi'r prif bwyntiau'n glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| Dehongli | Esbonio ystyr rhywbeth. |
| Dewis | Gwneud dewis gwybodus at ddiben penodol neu ddeilliant/canlyniad gofynnol. |
| Diagnosio | Coladu ac ystyried tystiolaeth briodol i nodi achos neu darddiad sefyllfa neu broblem. |
| Disgrifio | Ysgrifennu am y pwnc, gan gyflwyno gwybodaeth fanwl yn rhesymegol. |
| Dod i gasgliadau... | Derbyn rheswm neu benderfyniad neu farn ar sail rhesymeg. |
| Dosbarthu | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| Egluro | Esbonio'r wybodaeth a gyflwynir yn glir ac yn gryno. |
| Esbonio | Cyflwyno gwybodaeth fanwl am y pwnc gyda rhesymau sy'n dangos sut neu pam y mae'n cael ei chynnwys. Dylech gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn lle bo hynny'n bosibl. |
| Gwahaniaethu (esbonio) | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng 2 neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| Gwahaniaethu (nodi) | Nodi'r gwahaniaethau rhwng 2 neu fwy o ddadleuon, sefyllfaoedd neu bynciau. |
| Gweithredu | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| Gwerthuso | Archwilio cryfderau a gwendidau, ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu debygrwydd a gwahaniaethau. Asesu unrhyw dystiolaeth a gyflwynir o wahanol safbwyntiau a dod i gasgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gefnogi'r gwerthusiad. |
| Myfyrio | Ystyried gweithredoedd, profiadau neu ddysgu a sut y gall y rhain effeithio ar ymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| Nodi | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir. Efallai y bydd angen disgrifiad neu esboniad ychwanegol i gynorthwyo eglurder ac i briodoli hygrededd. |
| Trafod | Creu cyfrif manwl o ystod o safbwyntiau, barn neu bersbectif. |
| Ystyried | Meddwl yn feirniadol am sefyllfa, problem, gweithred neu benderfyniad a gyflwynir, a'i esbonio. Gweler hefyd 'esbonio' isod. |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Adborth yr Asesydd

| | |
|---|---|
| Enw'r Myfyriwr: | |
| Rhif y Myfyriwr: | |
| Cwrs: | |
| Uned(au): | |
| Meini Prawf: | |
| Dyddiad: | |
| Sylwadau: | |
| | |
| Penderfyniad: | |
| Camau Pellach: | |
| Asesydd: | |
| Swydd: | |

| Adroddiad Sicrhau Ansawdd Mewnol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster: | | | | | |
| Asesydd: | | | Sicrhawr Ansawdd Mewnol: | | |
| Enw'r Ymgeisydd | Uned(au) a samplwyd | Dulliau Asesu | Sylwadau | | |
| | | | | | |
| | | Llofnod y Sicrhawr Ansawdd Mewnol | | | |
| | | Llofnod yr Asesydd | | | |





Copyright © Focus Awards. All rights reserved